Rhentu Doeth Cymru

# Canllaw Awdurdodi a Chymeradwyo Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)

**Rhagfyr 2022**



**Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg ar y gofynion hyfforddi ar gyfer ail-drwyddedu ac ar gyfer cyrsiau DPP.**

## Cynnwys


**1. Cefndir** ....... 3

**2. Gofynion Hyfforddi Ail-drwyddedu** ....... 4

**3. Beth yw DPP?** ....... 5

**4. Gofynion Cwrs DPP Cymeradwy** ....... 6

a. Proses Ymgeisio Cwrs DPP ....... 9

b. Proses Cymeradwyo Cwrs DPP ....... 10

c. Pethau i feddwl amdanyn nhw wrth 'greu' cwrs DPP, neu wneud cais am gael cymeradwyo cwrs. ....... 10

**5. Proses Awdurdodi Hyfforddiant** ....... 11

a. Cais am Awdurdodi Hyfforddiant ....... 11

b. Y Broses Cymeradwyo Awdurdodiad Hyfforddiant ....... 12

**6. Archwiliad Rhentu Doeth Cymru** ....... 13

**a. Amcanion yr Archwiliad** ....... 13

**7. Cymeradwyaeth cwrs DPP ac adnewyddu awdurdodiad darparwr hyfforddiant** ....... 14

**Atodiad A – Rhestr Termau** ....... 15

**Atodiad B – Cynnwys Cwrs DPP Safonol** ....... 18

**Atodiad C – Amodau Safonol ar gyfer Cymeradwyo** ....... 32

**Atodiad D – Amodau Safonol ar gyfer Awdurdodi** ....... 34

Mae’r cwrs hwn ar gyfer darparwyr sy’n dymuno cynnig hyfforddiant Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) i ddarpar drwyddedeion y mae angen iddynt gael trwydded.

Nod y ddogfen hon yw rhoi arweiniad ar greu cyrsiau hyfforddi DPP y mae Rhentu Doeth Cymru’n eu cymeradwyo yn ogystal â gwybodaeth ar ddod yn Ddarparwr Hyfforddiant Awdurdodedig ar gyfer hyfforddi DPP. Os ydych chi (hefyd) eisiau cynnig hyfforddiant 'cyflawn' – sy'n cyfateb i'r cwrs undydd, yna rhaid i chi ddarllen y Canllaw penodol sy'n esbonio sut mae gwneud cais am y math hwn o gymeradwyaeth cwrs ac awdurdodiad darparwr hyfforddiant. Gellir dod o hyd i hyn ar wefan Rhentu Doeth Cymru, ar y dudalen Canllawiau Defnyddiol a Lawrlwythiadau: https://www.rentsmart.gov.wales/cym/resource-library/

## 1. Cefndir

Mae Rhan 1 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw landlord sydd ag eiddo rhent yng Nghymru, sy'n cael ei rentu ar gontract meddiannaeth berthnasol o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 neu denantiaeth reoledig at ddibenion Deddf Rhentu 1977, i gofrestru. Mae’n ofynnol i landlordiaid sy’n ymgymryd â thasgau gosod a rheoli eu heiddo rhent yng Nghymru wneud cais am drwydded. Does dim angen trwydded ar landlordiaid nad oes ganddynt ran yn y broses o greu contractau meddiannaeth a rheoli eu heiddo rhent. Serch hynny, rhaid iddynt ddefnyddio asiant trwyddedig a chofrestru fel landlord gan enwi’r asiant wrth gofrestru. Mae cwblhau hyfforddiant cymeradwy yn un o’r gofynion trwyddedu i ddeiliaid trwydded. Dylai’r hyfforddiant hwn roi gwybodaeth berthnasol a chyfredol a chyfleoedd datblygu proffesiynol i landlordiaid ac asiantau, er mwyn rheoli contractau meddiannaeth yn llwyddiannus ac yn unol â'r gyfraith, a darparu llety rhent sydd mewn cyflwr da.

Dan Reoliad 4, **Rheoliadau Rheoleiddio Tai Rhent Preifat (Gofynion Hyfforddi) (Cymru) 2015**, rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu bennu gofynion mewn perthynas â hyfforddiant (yn unol â 19(3)(a) Deddf Tai (Cymru) 2014.

**Rhaid i hyfforddiant nodi:**

a) ymrwymiadau statudol landlord a thenant;
b) y berthynas gontract rhwng landlord a thenant;
c) rôl asiant sy’n cyflawni gwaith gosod neu waith rheoli eiddo;

ch) arfer gorau o ran gosod a rheoli anheddau sy’n destun tenantiaeth ddomestig, sy'n cael eu marchnata neu eu cynnig i’w gosod dan denantiaeth ddomestig;
d) rôl landlord sy’n cyflawni gweithgareddau gosod neu weithgareddau rheoli eiddo;
dd) unrhyw ofynion hyfforddi eraill y mae’n ofynnol eu cynnwys mewn cwrs hyfforddiant cymeradwy yn nhyb yr awdurdod trwyddedu.

Felly, er mwyn cael trwydded, rhaid i landlordiaid, asiantau ac unrhyw bersonau cysylltiedig gwblhau naill ai cwrs hyfforddiant gyda Rhentu Doeth Cymru (RhDC) a fydd yn cwmpasu'r cynnwys sylfaenol a nodir ym mhwyntiau a) i dd) uchod, neu fel arall cwrs sydd wedi'i gymeradwyo gan Rhentu Doeth Cymru ac a ddarperir gan ddarparwr hyfforddiant allanol (DHA) awdurdodedig. Unwaith eto, bydd y cyrsiau hyn yn bodloni'r cynnwys sylfaenol a nodir uchod a gelwir y cyrsiau hyn yn gyrsiau 'cyflawn'.

Mae’r ddeddfwriaeth yn galluogi RhDC i 'Gymeradwyo' cyrsiau ac 'Awdurdodi' Darparwyr Hyfforddiant, fel y gallant gynnig hyfforddiant addas at ddibenion landlordiaid ac asiantau sy'n cael trwydded.  Er bod y gyfraith yn ymdrin â'r agweddau allweddol ar yr hyn sy'n angenrheidiol i wneud cais am gymeradwyaeth ac awdurdodiad, a'r broses y mae'n rhaid i RhDC gydymffurfio â hi wrth dderbyn neu wrthod ceisiadau o'r fath, ceir manylion ychwanegol yn y ddogfen hon.

## 2. Gofynion Hyfforddi Ail-drwyddedu

Mae opsiynau hyfforddiant ychwanegol ar gael i landlordiaid ac asiantau er mwyn bodloni'r gofynion hyfforddiant yn ystod y cam ail-drwyddedu. Mae'r hyblygrwydd ychwanegol hwn ar gael i gydnabod y ffaith y cwblhaodd ymgeiswyr y cwrs ‘cyflawn’ pan gawsant eu trwydded yn gyntaf.

Nodir yr opsiynau sydd ar gael ar gyfer adnewyddu'r drwydded isod:

a) naill ai'r cwrs trwyddedu ‘cyflawn’ gwreiddiol (ystafell ddosbarth neu ar-lein) i'w gwblhau o fewn cyfnod o flwyddyn cyn dyddiad cyflwyno'r cais, neu

b) gwrs ail-drwyddedu (mewn ystafell ddosbarth neu ar-lein) i'w gwblhau o fewn blwyddyn cyn dyddiad cyflwyno'r cais, neu

c) gyrsiau Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) cymeradwy i'w cwblhau dros y cyfnod o 5 mlynedd cyn dyddiad cyflwyno'r cais.  Rhaid cyflawni o leiaf 60 pwynt o

DPP ar gyfer trwydded landlord ac 80 pwynt o DPP ar gyfer trwydded asiant. Rhaid i bwyntiau DPP gynnwys Hyfforddiant 'Craidd' sy'n orfodol i bob ymgeisydd sy'n defnyddio DPP, a hyfforddiant DPP 'atodol' (o ddewis yr ymgeisydd) i wneud yn iawn am weddill y pwyntiau at y gwerth gofynnol ar gyfer eu math nhw o gais. Bydd ymgeiswyr sy'n cwblhau DPP yn yr un maes pwnc â'r DPP y maent eisoes wedi'i gwblhau, ond yn cronni pwyntiau o un o'r cyrsiau hynny, hyd yn oed os ydynt yn cael eu darparu gan ddarparwyr gwahanol.

Mae rhai cyrsiau ar gael mewn ystafell ddosbarth (neu ystafell ddosbarth rithiol) a rhai ar-lein. Gall landlordiaid ac asiantau ddewis math y dysgu sy'n addas iddynt. Gellir cwblhau'r dysgu'n gyfan gwbl ar-lein, neu mewn ystafell ddosbarth neu amgylchedd ystafell ddosbarth rithiol, neu gymysgedd o'r ddau.

Gellir gwneud hyfforddiant naill ai drwy gyrsiau Rhentu Doeth Cymru neu drwy gyrsiau DHA neu gyfuniad o'r ddau.

Efallai y bydd rhai cyrsiau ar-lein RhDC ar gael yn rhad ac am ddim a gall rhai godi cost ar y cynrychiolydd. Bydd pob cwrs a ddarperir gan Rhentu Doeth Cymru ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Ar gyfer ail-drwyddedu rhaid cynnwys isafswm o bwyntiau a phynciau craidd os mai DPP yw'r llwybr a ddewisir i fodloni'r gofynion hyfforddiant ar gyfer ail-drwyddedu.

## 3. Beth yw DPP?

Mae cyrsiau DPP yn rhoi cyfle i landlordiaid ac asiantau gael mwy o hyblygrwydd ynglŷn ag amseru, pynciau a'r amgylchedd cyflenwi ar gyfer yr hyfforddiant, o gymharu â'r cwrs trwyddedu cyfatebol undydd 'cyflawn'. Mae hyn yn galluogi landlordiaid / asiantau i deilwra eu hyfforddiant at eu hanghenion busnes ac unigol penodol ac i ddysgu'n llawer manylach am destunau penodol.

Mae rhai elfennau o DPP yn orfodol; gellir dewis elfennau eraill yn seiliedig ar ddiddordeb unigol / angen busnes.

Mae DPP yn seiliedig ar bwyntiau a ddyfernir gan yr Awdurdod Trwyddedu Sengl (Rhentu Doeth Cymru) yn ystod cam cymeradwyo'r cwrs.

Penderfynir ar nifer y pwyntiau yn dilyn asesiad swyddogion, a fydd yn ystyried:

- Y maes llafur a bennwyd ymlaen llaw
- Yr amser a gymerwyd i gwblhau’r cwrs
- Y dull cwblhau (ystafell ddosbarth neu ar-lein ac ati)
- P’un ai yw asesu yn rhan annatod o'r cwrs
- Perthnasedd y pwnc i amcanion RhDC/Llywodraeth Cymru.
- Pa mor eang yw cynnwys y cwrs
- Boed y cwrs yn 'graidd' neu'n 'atodol'

Yn gyffredinol, dyfernir nifer uwch o bwyntiau lle ystyrir bod cyrsiau'n orfodol a/neu'n fwy buddiol i amcanion RhDC/LlC.

## 4. Gofynion Cwrs DPP Cymeradwy

Er mwyn i gwrs gael ei gymeradwyo fel DPP, rhaid gwneud cais i RhDC.

Gall cyrsiau DPP fod yn unrhyw hyd ac ymdrin ag unrhyw gynnwys sy'n berthnasol i landlord neu asiant sy'n gosod a/neu'n rheoli eiddo rhent yng Nghymru. Yn gyffredinol, dylai cynnwys DPP barhau i ddod o fewn gofynion yr hyfforddiant o dan y Rheoliadau a rhaid iddo ddarparu cynnwys ar ofynion statudol a chontractiol ac arfer gorau, gan wneud y gwahaniaethu rhwng pob un yn glir. Yn ogystal â hynny, rhaid i’r landlord ddeall ei rwymedigaethau, rhwymedigaethau’r tenantiaid, a rhwymedigaethau i asiantau pan fo landlord yn cyfarwyddo un.  Mae’r egwyddor yn debyg os yw'n hyfforddiant sy'n benodol i asiantau.

Wrth gyflawni cyrsiau, rhaid i ddarparwyr hyfforddiant sicrhau bod cyrsiau o leiaf yn rhyngweithiol a diddorol, a'u bod yn hwyluso amgylchedd sy'n ysgogi dysgu.  Dylid darparu cynnwys drwy amrywiaeth o ddulliau (e.e. nid testun yn unig) a dylai fod gwahanol ddulliau o helpu dysgu (e.e. profion dilysu, enghreifftiau bywyd go iawn, ac ati).

Bydd proses asesu cymeradwyo cyrsiau DPP a gynhelir gan RhDC yn ystyried a yw cynnwys y cwrs yn berthnasol i'r gynulleidfa a hefyd, yn seiliedig ar gymhlethdod, perthnasedd a manylion y cwrs, bydd RhDC yn penderfynu faint o bwyntiau a roddir i’r cwrs DPP.

Yn dibynnu ar y DPP a gynigir, bydd Rhentu Doeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddilysu eu dealltwriaeth o'r cwrs drwy broses arholi gadarn. Bydd hyn yn rhoi cysur i RhDC bod gan y cynrychiolwyr ddealltwriaeth dda iawn o'r cynnwys dan sylw.

Nid oes rhestr ddiffiniol o gyrsiau DPP y gallai Darparwr Hyfforddiant Allanol (DHA) gynnig a chael cymeradwyaeth ar eu cyfer. Fodd bynnag, er mwyn helpu Darparwyr Hyfforddiant Allanol mae RhDC wedi llunio rhestr o gynnwys safonol ar gyfer gwahanol lefelau o gyrsiau DPP, sydd yn naturiol addas eu cyflwyno gyda'i gilydd. Mae'r rhain i'w gweld yn Atodiad B. Yr ethos yw y gallai rhai 'pynciau' gael eu cynnwys mewn cyrsiau DPP sy'n sgorio'n isel (e.e. cwrs byr cyflym na fyddai angen prawf dilysu arno ond y byddai dal angen iddo fod yn atyniadol a pherthnasol.) Yna byddai pynciau cyfan yn cael mwy o bwyntiau wedi'u priodoli iddyn nhw, ond yn cael eu gweld fel cyrsiau 'sylfaenol' ac yna byddai pynciau trawsbynciol mwy cysylltiedig yn cael eu dysgu gyda'i gilydd yn DPP mwy datblygedig gyda mwy o bwyntiau eto (a gyda rhyw lefel o ddilysu a briodolir i'r cwrs hefyd).

Er mwyn helpu ymgeiswyr a darpar ddarparwyr DPP i ddeall math y DPP y byddai RhDC yn ei gydnabod, rydym wedi eu diffinio ymhellach fel a ganlyn:

**Cyrsiau DPP craidd**

Mae'n ofynnol cwblhau cwrs DPP craidd ar gyfer adnewyddu trwydded os nad yw landlord neu asiant yn cwblhau'r drwydded 'gyflawn' neu'r cwrs 'ail-drwyddedu'. Mae'r cwrs DPP craidd (neu orfodol) ar waith i sicrhau bod pob landlord (ac asiant) yn cael ei atgoffa o'r wybodaeth sy'n angenrheidiol i sicrhau ei fod yn gosod cartref sy'n ddiogel, yn iach ac yn gynnes, ac yn defnyddio'r contract meddiannaeth cywir. Bydd y DPP Craidd ynghyd â DPP atodol sydd ar gael yn rhoi cyfanswm nifer y pwyntiau DPP y mae eu hangen ar yr ymgeisydd i gael ail drwyddedu.

**Cyrsiau DPP Atodol**

Cyrsiau DPP Atodol yw'r cyrsiau DPP y gall landlordiaid ac asiantau ddewis eu cwblhau, er mwyn ychwanegu at y pwyntiau DPP y maent yn eu cronni er mwyn cyrraedd y gwerth angenrheidiol ar gyfer adnewyddu trwydded, yn ogystal â'r pwyntiau hyfforddi 'craidd'. Diben hyn yw y gall cwsmer ddewis meysydd sy'n berthnasol neu o ddiddordeb penodol, er mwyn 'arbenigo' yn unol ag anghenion y cwsmer. Mae cyrsiau atodol yn cael eu

categoreiddio ymhellach yn gyrsiau 'testun' DPP, cyrsiau DPP 'sylfaenol' a chyrsiau DPP 'uwch'

**DPP ar sail testun**: Er mwyn bod yn gwrs DPP sy'n seiliedig ar bwnc, rhaid iddo gynnwys o leiaf 3 'phwnc' gwahanol o'r rhestr a geir yn Atodiad B y ddogfen hon. Y bwriad yw fod cyrsiau DPP sy'n seiliedig ar y testun yn 'ddiweddariadau' cryno ar wybodaeth y gallai landlordiaid ac asiantau ei chwblhau mewn cyfnod byr o amser (o dan awr). Maent yn rhoi **5** pwynt DPP.

**DPP sylfaenol**: Rhaid cwblhau o leiaf yr holl 'destunau' mewn un 'pwnc', fel y rhestrir yn Atodiad B y ddogfen hon, er mwyn i gwrs fod yn gwrs sylfaenol, ac felly yn cynnwys **10** pwynt DPP. Mae cyrsiau sylfaenol yn ymdrin â materion ar wahân, fel arfer am un maes diddordeb allweddol a byddai'n gyfystyr â rhyw ddwy awr o astudio.

**DPP Uwch**: Rhaid cwblhau o leiaf yr holl 'destunau' mewn un pwnc, fel y rhestrir yn Atodiad B y ddogfen hon, er mwyn i gwrs fod yn gwrs uwch. Bwriedir i gyrsiau uwch gynnwys gwybodaeth fanylach mewn amrywiaeth o faterion (sy'n aml yn benodol i faes arbennig yn y sector rhentu preifat) y dylai landlord neu asiant ei wybod a byddai'n gyfystyr i fynd i gwrs hanner diwrnod mewn ystafell ddosbarth. Gallai cyrsiau yn y categori hwn fod yn llai cysylltiedig ond mewn pwnc sydd o ddiddordeb sylweddol i RhDC a'i bartneriaid (e.e. iechyd meddwl). Mae’r cyrsiau hyn werth **20** pwynt DPP.

Mae'r rhestr yn Atodiad B yn cynnwys manylion cyrsiau DPP 'posibl', a fyddai, pe baent yn cael eu cyflwyno i RhDC a’u hasesu fel rhai sy'n bodloni’r lefelau cynnwys cywir, yn cael y pwyntiau a ddisgrifir isod.

| **Disgrifiad o'r Cwrs** | **Pwyntiau dangosol a ddyrannwyd gan RhDC** | **Gwybodaeth ychwanegol** |
|---|---|---|
| Atodol<br><br>DPP ar sail testun | 5 pwynt | Gall pynciau fod o unrhyw 'destun' – ond ni chant ymdrin â'r un testun fwy nag unwaith |
| Atodol<br><br>DPP sylfaenol | 10 pwynt | |

| | | |
|---|---|---|
| Atodol<br><br>DPP Uwch | 20 pwynt | |
| Craidd: DPP ar sail testun | I'w gadarnhau | Does dim un yn weithredol ar hyn o bryd, ond gellid datblygu rhai yn y dyfodol. |
| DPP Sylfaenol Craidd | I'w gadarnhau | Does dim un yn weithredol ar hyn o bryd, ond gellid datblygu rhai yn y dyfodol. |
| DPP Uwch Craidd | 30 pwynt | Un cwrs yw hwn ar hyn o bryd – Cartrefi Diogel ac Iach |

## a. Proses Ymgeisio Cwrs DPP

Er mwyn i gwrs Darparwr Hyfforddiant Allanol gael ei gymeradwyo ac felly cael ei hysbysebu fel un sy'n cynnig pwyntiau DPP RhDC ar gyfer ail drwyddedu, rhaid i'r DHA gyflwyno'r canlynol i RhDC:

- Ffurflen gais i gael cymeradwyo cwrs DPP, wedi'i chwblhau a'i llofnodi
- Y maes llafur llawn a chynnwys y cwrs gyda'r ffurflen gais neu fynediad atynt os caiff y cwrs ei gyflwyno ar-lein.
- Copïau o'r cyflwyniadau a'r taflenni a roddir i gynrychiolwyr ar y cyrsiau yn yr ystafell ddosbarth/lleoliad ystafell ddosbarth rhithwir.
- Papurau prawf neu gronfa o gwestiynau ar gyfer profion ar-lein a marc pasio priodol (o leiaf 70%) ar gyfer rhan y cyrsiau DPP o'r cais. Rhaid llunio prawf ar gyfer hyfforddiant 'uwch' neu 'graidd'.
- Sampl o Dystysgrif DPP a roddir i'r cynrychiolwyr unwaith y byddant yn cwblhau'r hyfforddiant
- Copi o ffurflen Adborth Dysgwyr
- Ffi Cymeradwyo Cwrs

Mae'r ffi berthnasol ar gyfer y Cais am Gymeradwyaeth Cwrs i'w gweld ar wefan polisi Ffioedd RhDC ar y dudalen lawrlwythiadau: https://www.rentsmart.gov.wales/cym/resource-library/. Mae'r ffi yn wahanol ar gyfer 'math' y cwrs DPP y gwneir cais amdano a'r swm y gwnaed cais amdano o dan un cais. Er

mwyn osgoi amheuaeth, bydd talu am gyrsiau y penderfynir eu bod yn rhai 'craidd' yn dilyn yr un strwythur ffioedd testun, sylfaenol ac uwch, fel y bo'n briodol. Mae modd talu am gymeradwyaeth gwrs â siec neu drwy gael anfoneb.

## b. Proses Cymeradwyo Cwrs DPP

Pan ddaw cais i law RhDC yn gofyn am gymeradwyo cwrs DPP, byddant yn asesu cynnwys yr hyfforddiant a'r dogfennau ategol ac yna'n penderfynu 'math' y cwrs DPP ac felly sawl pwynt y priodolir iddo. Ar hyn o bryd, byddant yn sicrhau bod y ffi a delir yn debyg i 'fath' go iawn y DPP, caiff ei gymeradwyo yn ôl yr angen (a threfnir bod unrhyw swm ad-daliad/swm sy'n weddill yn cael ei dalu yn ôl yr angen). Bydd RhDC hefyd yn agor deialog gyda'r Darparwyr Hyfforddiant Allanol i sicrhau bod y cynnwys a gwmpesir yn ddigonol ac yn trafod opsiynau ar gyfer gwneud y mwyaf o'r pwyntiau DPP y gallai cwrs eu cael, os yw hyn yn rhywbeth y mae'r Darparwyr Hyfforddiant Allanol am ei ddilyn.

Yn ogystal, mae Adran 6 Rheoliadau Rheoleiddio Tai Rhent Preifat (Gofynion Hyfforddi) (Cymru) 2015 yn rhoi'r hawl i'r Awdurdod Trwyddedu atodi neu ddileu amod neu amodau i/o Gymeradwyaethau Cwrs. Fel rhan o Gymeradwyo Cwrs DPP, bydd yn ofynnol i'r Darparwyr Hyfforddiant Allanol gadw at set o amodau. Mae’r amodau safonol wedi’u rhestru isod yn Atodiad C ond gall Rhentu Doeth Cymru orfodi amodau ychwanegol. Caiff hyn ei asesu fesul achos.

## c. Pethau i feddwl amdanyn nhw wrth 'greu' cwrs DPP, neu wneud cais am gael cymeradwyo cwrs.

Mae RhDC yn dymuno helpu Darparwyr Hyfforddiant Allanol i greu DPP sy'n berthnasol ac yn hygyrch i drwyddedeion. Mae RhDC am ymgysylltu â Darparwyr Hyfforddiant Allanol o gamau cynllunio cychwynnol y DPP er mwyn helpu i osod y DPP ar y lefel gywir a thrafod cynnwys sy'n berthnasol ac yn ddefnyddiol. Nid yw’r rhestr yn Atodiad B o'r gwahanol fathau o hyfforddiant DPP a'u meysydd llafur yn gynhwysfawr. Os oes cwrs a gynigir gan Ddarparwr Hyfforddiant Allanol nad yw ar y rhestr, yna siaradwch â Thîm Hyfforddi Rhentu Doeth Cymru a gallant asesu'r cynnwys a'r maes llafur awgrymedig a phenderfynu fel pa fath o hyfforddiant DPP y gellir ei gydnabod.

Cydnabyddir hefyd y bydd cyrsiau DPP yr oedd gan Ddarparwr Hyfforddiant Allanol eisoes yn y farchnad cyn i RhDC lansio DPP wedi cael eu pwyntiau DPP eu hunain (a ddewiswyd fel arfer gan y Darparwr Hyfforddiant Allanol ei hun), ac ni fydd y dyraniad hwn bob amser yn adlewyrchu system bwyntiau DPP newydd RhDC o hyn ymlaen. Bydd RhDC yn

gwneud popeth y gall i sicrhau bod y gwahaniaethau hyn yn glir i gwsmeriaid yn y dyfodol, ond mae hefyd eisiau ceisio unioni 'mathau'r' hyfforddiant DPP (testun, sylfaenol ac uwch) â'r hyn sydd yn y farchnad ar hyn o bryd, gan greu cyn lleied o waith ychwanegol â phosibl i'r Darparwyr Hyfforddiant Allanol. Gellir dyrannu pwyntiau DPP RhDC i hyfforddiant yn ôl-weithredol drwy'r broses gymeradwyo, a bydd y gymeradwyaeth yn ei gwneud yn glir o ba ddyddiad y cymeradwywyd y cwrs DPP, a phryd y daw'r gymeradwyaeth i ben. Ni all Darparwr Hyfforddiant Allanol ddweud bod pwyntiau DPP RhDC ar gael ar gyfer hyfforddiant DPP y maen nhw'n ei gynnig oni bai eu bod wedi cael cymeradwyaeth swyddogol gan RhDC ar gyfer y cwrs penodol hwnnw. Ni ellir defnyddio datganiadau bod cyrsiau a gynhelir gan Ddarparwr Hyfforddiant Allanol XXX yn cael eu cydnabod gan RhDC, oni bai bod yr holl gyrsiau DPP a gynigir gan y Darparwr Hyfforddiant Allanol yn cael eu cymeradwyo'n unigol. Pe canfyddid bod Darparwr Hyfforddiant Allanol yn awgrymu hynny, gallai effeithio ar allu'r Darparwr Hyfforddiant Allanol hwnnw i gael cymeradwyaeth DPP yn y dyfodol a gall dorri cyfraith disgrifiad masnach.

## 5. Proses Awdurdodi Hyfforddiant

Dim ond un rhan o'r broses angenrheidiol er mwyn i Ddarparwr Hyfforddiant Allanol gael darparu hyfforddiant DPP y mae RhDC yn ei gydnabod yw cael cymeradwyaeth ar gyfer cwrs DPP. Yr agwedd arall yw Awdurdodi Hyfforddiant. Os yw'r person neu'r cwmni a ddyfeisiodd yr hyfforddiant DPP a gymeradwywyd hefyd yn dymuno darparu'r hyfforddiant hwnnw (naill ai ar-lein neu mewn ystafell ddosbarth, neu mewn lleoliad ystafell ddosbarth rhithwir) yna byddai angen iddo ddilyn y broses isod i ddod yn Ddarparwr Hyfforddiant Awdurdodedig.

### a. Cais am Awdurdodi Hyfforddiant

Er mwyn i Ddarparwr Hyfforddiant Allanol gael ei awdurdodi, rhaid iddo wneud cais a thalu ffi i RhDC. Fodd bynnag, os oes gan y Darparwr Hyfforddiant Allanol awdurdodiad eisoes ar gyfer darparu'r cwrs trwyddedu 'cyflawn', yna nid oes angen iddynt wneud cais am awdurdodiad ychwanegol ac yn hytrach na hynny, gallant ddiwygio eu hawdurdodiad presennol i adlewyrchu eu bod hefyd yn darparu hyfforddiant DPP. Er mwyn trefnu'r diwygiad hwn, dim ond angen i'r Darparwr Hyfforddiant Allanol gysylltu â'r tîm hyfforddi i ofyn am hyn sydd.

Os yw Darparwr Hyfforddiant Allanol yn dymuno gwneud cais am ddarparu DPP yn unig, rhaid iddynt gyflwyno'r canlynol i RhDC:

- CV llawn Hyfforddwr/Awdur y Cwrs (gan gynnwys tystysgrifau hyfforddi)
- Proses Monitro'r Hyfforddwr
- Proses Monitro Cynnwys y Cwrs (sut y byddwch yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei diweddaru)
- Cod Ymddygiad/Ymarfer yr Hyfforddwr
- Polisi Diogelu Data
- Polisi Diddymu Cwrs/Cofrestriad
- Gweithdrefn Gwyno

Mae'r ffi berthnasol ar gyfer Darparwr Hyfforddiant Allanol sy’n dymuno gwneud cais am Awdurdodiad DPP yn unig i'w gweld ar wefan polisi Ffioedd RhDC ar y dudalen lawrlwythiadau: https://www.rentsmart.gov.wales/cym/resource-library/. Mae modd talu am gymeradwyaeth gwrs â siec neu drwy gael anfoneb. Os yw Darparwr Hyfforddiant Allanol yn cyflwyno cais newydd am awdurdodiad ond mae’n dymuno gwneud cais i ddarparu hyfforddiant DPP yn unig, codir ffi DPP yn unig. Fodd bynnag, os yw'r Darparwr Hyfforddiant Allanol, yn ddiweddarach (yn ystod y cyfnod awdurdodi o 5 mlynedd) hefyd yn dymuno darparu'r cwrs 'cyflawn', bydd y gwahaniaeth yn y ffi yn ddyledus (hynny yw'r gwahaniaeth rhwng ffi’r awdurdodiad DPP a'r ffi awdurdodi cwrs cyflawn fydd yn berthnasol.)

### b. Y Broses Cymeradwyo Awdurdodiad Hyfforddiant

Pan fo RhDC yn cael cais gan Ddarparwr Hyfforddiant am Awdurdodiad, byddant yn asesu'r cais a'r dogfennau ategol ac yna'n penderfynu a ddylid caniatau’r awdurdodiad neu ei wrthod. Fodd bynnag, cyn hyn bydd RhDC yn agor deialog gyda'r Darparwr Hyfforddiant Allanol i sicrhau bod yr holl wybodaeth mae ei hangen i dderbyn y cais wedi dod i law ac i egluro unrhyw bwyntiau ychwanegol. Bydd angen talu'r ffi hefyd.

Mae Adran 6 Rheoliadau Rheoleiddio Tai Rhent Preifat (Gofynion Hyfforddi) (Cymru) 2015 yn rhoi'r hawl i’r Awdurdod Trwyddedu ychwanegu neu ddileu amod neu amodau ar geisiadau Awdurdodi Darparwyr Hyfforddiant. Fel rhan o'r Awdurdodiad Hyfforddwr, bydd yn ofynnol i'r Darparwr Hyfforddiant Allanol gadw at set o amodau. Mae’r amodau safonol wedi’u rhestru isod yn Atodiad D ond gall Rhentu Doeth Cymru orfodi amodau ychwanegol. Caiff hyn ei asesu fesul achos.

# 6. Archwiliad Rhentu Doeth Cymru

Dan Reoliad 10 **Rheoliadau Rheoleiddio Tai Rhentu Preifat (Gofynion Hyfforddiant) (Cymru) 2015**, mae gan yr Awdurdod Trwyddedu hawl i fonitro darparwr hyfforddiant awdurdodedig.

(1) Ar gais yr awdurdod trwyddedu, rhaid i ddarparwr hyfforddiant awdurdodedig gyflwyno'r canlynol:

a) gwybodaeth am drefniadau gweinyddol y darparwr hyfforddiant awdurdodedig ac am y ffordd y cynhelir cyrsiau yn y modd y gallai bod ei hangen yn rhesymol ar yr awdurdod trwyddedu; a

b) cofnodion neu ddogfennau eraill (ym mha bynnag ffurf y'u cynhelir) a gedwir at ddibenion cydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

(2) Rhaid i'r darparwr hyfforddiant awdurdodedig gyflenwi gwybodaeth neu ddogfennau (fel y bo'n berthnasol) y gofynnir amdanyn nhw dan baragraff (1) cyn pen cyfnod allai fod yn ofynnol yn rhesymol gan yr awdurdod trwyddedu, neu cyn gynted â bod hynny'n ymarferol yn rhesymol.

## a. Amcanion yr Archwiliad

Amcan cyffredinol yr archwiliad yw i Rentu Doeth Cymru gael sicrwydd bod darparwr hyfforddiant cymeradwy'n rheoli system hyfforddiant gadarn. Dylai'r rheoliadau sydd ar waith alluogi'r darparwr hyfforddiant i gydymffurfio â'r gyfraith. Dylai'r amodau gael eu cynnwys yn yr awdurdodiad hyfforddi a'r ceisiadau am gymeradwyaeth y cwrs, a chymeradwyaeth y cwrs a chanllaw awdurdodi'r darparwr hyfforddiant. Bydd hyn yn ei dro yn sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Tai (Cymru) 2014. Os tybir y gellir gwneud gwelliannau, rhoddir gwybod i'r darparwr am hynny, fel bod modd gwella rheoliadau.

Mae modd cael copi o **Fframwaith a Chanllawiau Archwilio Awdurdodi a Chymeradwyo Hyfforddiant RhDC** drwy gysylltu â'r tîm hyfforddi ar 03000 133 344 neu HyfforddiantRhentuDoethCymru@caerdydd.gov.uk

## 7. Cymeradwyaeth cwrs DPP ac adnewyddu awdurdodiad darparwr hyfforddiant

Mae cymeradwyaeth cwrs ac Awdurdodiad Darparwr Hyfforddiant yn ddilys am gyfnod o **bum mlynedd.** Ar ddiwedd y cyfnod cymeradwyo, rhaid i Ddarparwyr Hyfforddiant Allanol adnewyddu eu cymeradwyaeth gwrs a'u hawdurdodiad darparwr hyfforddiant.

Mae proses adnewyddu Cymeradwya Cwrs ac Awdurdodiad Darparwyr Hyfforddiant yn gofyn i ymgeiswyr gyflwyno cais newydd a dogfennau ategol fel y nodir yn y ddogfen hon.

Bydd Rhentu Doeth Cymru yn adolygu'r Canllaw hwn o bryd i'w gilydd.

# Atodiad A – Rhestr Termau

### Ffi Awdurdodi

Rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu (Rhentu Doeth Cymru) benderfynu ymlaen llaw ar yr hyfforddiant DPP a fydd yn addas at ddibenion trwyddedu ac adnewyddu trwyddedau. Nodir hyn yn Neddf Tai (Cymru) 2014. Mae Rheoliadau Rheoleiddio Tai Rhent Preifat (Gofynion Hyfforddi) (Cymru) 2015 yn caniatáu i'r Awdurdod Trwyddedu godi ffi am gais gan Ddarparwr Hyfforddiant Allanol am awdurdodiad i ddarparu cwrs/cyrsiau at ddibenion trwyddedu/ail-drwyddedu o dan y Ddeddf.

### Ffi Gymeradwyo

Codir ffi i gymeradwyo cais am gwrs DPP drwy'r un mecanwaith ag ar gyfer y ffi awdurdodi uchod. Dim ond cwrs DPP y byddai RhDC yn ei dderbyn ac yn dyrannu pwyntiau DPP ar ei gyfer y caiff Darparwyr Hyfforddiant Allanol ei ddarparu, ac os caiff ei awdurdodi o flaen llaw fel cwrs dan y broses a nodir yn y ddogfen hon. Mae cost y ffi gymeradwyo yn dibynnu ar nifer y pwyntiau DPP y byddai cwrs yn eu rhoi (e.e. pa mor fanwl oedd).

### Cyrsiau Trwyddedu Cyflawn

Mae’r rhain yn cyfateb i gwrs ystafell ddosbarth undydd sy'n cwmpasu'r holl destunau sy'n angenrheidiol ar gyfer hyfforddiant trwyddedu fel y nodir o dan Reoliad 4 Rheoliadau Rheoleiddio Tai Rhent Preifat (Gofynion Hyfforddi) (Cymru) 2015

### Datblygiad Proffesiynol Parhaus - DPP

At ddibenion y ddogfen hon, diffinnir DPP - neu ddatblygiad proffesiynol parhaus, fel hyfforddiant sy'n cwmpasu set benodol o wybodaeth, sydd wedi'i chategoreiddio'n bynciau, a thestunau, fel y'u diffinnir isod. Mae cyrsiau DPP yn fwy penodol eu natur, a byddant yn cwmpasu adrannau o wybodaeth sydd â nod mwy pendant na'r cwrs trwyddedu 'cyflawn' presennol, y mae'n rhaid iddo gwmpasu pob elfen o'r maes llafur safonol ar gyfer landlord (neu asiant) a gyhoeddir gan Rhentu Doeth Cymru ar hyn o bryd. Felly, ni fydd DPP ond yn cwmpasu elfennau penodol o hyfforddiant landlordiaid/asiantau.

### Pwyntiau DPP

Pwyntiau DPP yw'r gwerthoedd a gronnir drwy gwblhau cyrsiau DPP, gyda’r nod o adnewyddu. Er mwyn adnewyddu trwydded, rhaid i landlord gyrraedd **60** pwynt DPP a rhaid i asiant gyrraedd **80** pwynt DPP. Rhaid i bwyntiau DPP gynnwys Hyfforddiant 'Craidd' sy'n orfodol i bob ymgeisydd sy'n defnyddio DPP, a hyfforddiant DPP 'atodol' (o ddewis yr ymgeisydd) i wneud yn iawn am weddill y pwyntiau at y gwerth gofynnol ar gyfer math eu cais.

**Cyrsiau DPP craidd**

Mae'n ofynnol cwblhau cwrs DPP craidd ar gyfer adnewyddu trwydded os nad yw landlord neu asiant yn cwblhau'r drwydded 'gyflawn' neu'r cwrs 'ail-drwyddedu'. Mae'r cwrs DPP craidd (neu orfodol) ar waith i sicrhau bod pob landlord (ac asiant) yn cael ei atgoffa o'r wybodaeth sy'n angenrheidiol i sicrhau ei fod yn gosod cartref sy'n ddiogel, yn iach ac yn gynnes, ac ar y contract meddiannaeth cywir.

**Cyrsiau DPP Atodol**

Cyrsiau DPP Atodol yw'r cyrsiau DPP y gall landlordiaid ac asiantau ddewis eu cwblhau, er mwyn ychwanegu at y pwyntiau DPP y maent yn eu cronni er mwyn cyrraedd y gwerth sy'n angenrheidiol i adnewyddu trwydded, yn ogystal â'r pwyntiau hyfforddi 'craidd' y mae eu hangen. Diben hyn yw y gall cwsmer ddewis meysydd sy'n berthnasol neu o ddiddordeb penodol, er mwyn 'arbenigo' yn unol ag anghenion y cwsmer. Mae cyrsiau atodol yn cael eu categoreiddio ymhellach yn gyrsiau 'testun' DPP, cyrsiau DPP 'sylfaenol' a chyrsiau DPP 'uwch'

> **DPP ar sail testun**: Er mwyn bod yn gwrs DPP sy'n seiliedig ar bwnc, rhaid iddo gynnwys o leiaf tri 'phwnc' gwahanol o'r rhestr a geir yn Atodiad B y ddogfen hon. Nod y cyrsiau DPP sy'n seiliedig bwnc yw rhoi 'ddiweddariadau' cryno ar wybodaeth y gallai landlordiaid ac asiantau ei chwblhau mewn cyfnod byr o amser (o dan awr). Maent yn rhoi 5 pwynt DPP.
>
> **DPP sylfaenol**: Rhaid cwblhau o leiaf yr holl 'destunau' mewn un 'pwnc', fel y rhestrir yn Atodiad B y ddogfen hon, er mwyn i gwrs fod yn gwrs sylfaenol, ac felly yn cynnwys 10 pwynt DPP. Mae cyrsiau sylfaenol yn ymdrin â materion ar wahân, fel arfer am un maes diddordeb allweddol a byddai'n gyfystyr â rhyw ddwy awr o astudio.
>
> **DPP Uwch**: Rhaid cwblhau o leiaf yr holl 'destunau' mewn un pwnc, fel y rhestrir yn Atodiad B y ddogfen hon, er mwyn i gwrs fod yn gwrs uwch. Bwriedir i gyrsiau uwch gynnwys gwybodaeth fanylach mewn amrywiaeth o faterion (sy'n aml yn benodol i faes arbennig yn y sector rhentu preifat) y dylai landlord neu asiant ei gwybod a byddai'n gyfystyr i fynd i gwrs hanner diwrnod mewn ystafell ddosbarth. Gallai cyrsiau yn y categori hwn fod yn llai cysylltiedig ond mewn pwnc sydd o ddiddordeb sylweddol i RhDC a'i bartneriaid (e.e. ymwybyddiaeth o iechyd meddwl). Mae'r cyrsiau hyn werth 20 pwynt DPP.

**Darparwyr Hyfforddiant Allanol - DHA**

Darparwr hyfforddiant allanol yw'r term ar gyfer sefydliadau y tu allan i Rhentu Doeth Cymru sy'n darparu hyfforddiant i landlordiaid ac asiantau at ddibenion trwyddedu/adnewyddu. Fodd bynnag, dim ond ar ôl cael ei 'awdurdodi' gan RhDC i gynnig hyfforddiant o'r fath y caiff wneud hynny. Rhaid i RhDC gymeradwyo pob cwrs y maent yn ei gynnig a'i frandio fel un sy'n addas at ddibenion trwyddedu neu ail-drwyddedu.

**Pwnc**

Mae pwnc yn set eang o destunau sy'n dod o dan un grŵp. Un enghraifft o bwnc fyddai '**Cydraddoldeb ac Amrywiaeth',**' sy'n cynnwys y **Testunau** canlynol:

Deddf Cydraddoldeb 2010

Mathau penodol o wahaniaethu

Gweithio gyda thenantiaid sydd â Nodweddion a Ddiogelir

Addasiadau a Hygyrchedd

**Testunau**

Mae testun yn ddarn penodol o wybodaeth y gellir ei gynnwys mewn cwrs DPP. Mae testun yn llai eang, ac mae nifer o destunau'n gwneud **pwnc**. Un enghraifft o destun fyddai 'y dreth gyngor', ond 'treth' fyddai'r pwnc cyfatebol.

# Atodiad B – Cynnwys Cwrs DPP Safonol

Mae'r adran hon yn rhestru 'testunau' a 'phynciau' a gynigir ar gyfer cyrsiau DPP a'r lefelau asesu. Ni all hon fod yn rhestr gynhwysfawr; pan ddaw deddfwriaeth newydd neu destunau Sector Rhent Preifat perthnasol, ychwanegir y testunau a'r pynciau posibl y gellir eu cynnwys fel DPP ati. Os oes cwrs a gynigir gan DHA nad yw ar y rhestr, yna siaradwch â Thîm Hyfforddi Rhentu Doeth Cymru a gallant ei asesu a phenderfynu fel pa fath o hyfforddiant DPP y gellir ei gydnabod.

### Cyrsiau DPP Sylfaenol:

Dyrennir 5 pwynt am bob 3 neu fwy o destunau a drafodir (os nad yw'r pwnc cyfan wedi'i gynnwys) a 10 pwynt am bob pwnc llawn dan sylw:

| Pwnc | Testunau |
|---|---|
| **Rhentu Doeth Cymru (Deddf Tai Cymru 2014: Trosolwg)** | Cofrestriad |
| | Trwyddedu |
| | Amodau |
| | Newidiadau y mae'n rhaid rhoi gwybod amdanynt i RhDC yn ôl y gyfraith |
| | Person Heini a Phriodol |
| | Hyfforddiant |
| | Gorfodi |
| | Cod Ymarfer a Rhwymedigaethau Parhaus |
| | Archwiliad Asiant |
| | Cynnal Cofrestriad ac Adnewyddu Trwydded |
| | "Person Cysylltiedig" dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 |
| **Telerau Busnes** | Ffioedd |
| | Amddiffyn Arian Cleientiaid ac Yswiriant Indemniad Proffesiynol |
| | Cyfrifyddiaeth a thrywydd archwilio |
| | Dechrau/cwblhau'r broses o ddod â thenantiaeth i ben |
| | Estopel |

| | |
|---|---|
| | Contract cyflogai |
| **Caniatâd/cyfarwyddiadau** | Rhydd-ddeiliad |
| | Darparwr morgais |
| | Cwmni yswiriant |
| | Trosi, Cynllunio a Rheoliadau Adeiladu |
| | Cofrestru/Trwyddedu Rhentu Doeth Cymru |
| **Treth** | Treth Incwm (CThEM) |
| | Treth ar enillion cyfalaf |
| | Treth Etifeddiant |
| | Treth Gyngor |
| **Buddsoddi mewn Eiddo ac Opsiynau** | Buddsoddi mewn eiddo |
| | Y Sector Rhentu Preifat |
| | Hunan-Reoli Landlordiaid |
| | Gosod drwy asiant yn unig, gosod a chasglu rhent, rheolaeth lawn |
| **Yswiriant** | Adeilad a chynnwys |
| | Yswiriant landlord |
| | Indemniad proffesiynol |
| | Atebolrwydd cyhoeddus (contractwyr) |
| **Dod o hyd i Denant** | Sut i hysbysebu eiddo i'w osod |
| | Ymweld â'r eiddo |
| | Cyfweliad a geirdaon neu wasanaeth geirdaon |
| | Gwarantydd |
| | Gwirio prawf adnabod, statws mewnfudo |
| | Ffioedd |
| **Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)** | Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) |

| | |
|---|---|
| | Seiliau cyfreithiol dros brosesu gwybodaeth |
| | Rheolwyr Data a Phrosesyddion Data |
| | Casglu a phrosesu data |
| | Cofrestru fel rheolydd data |
| | Hysbysiadau preifatrwydd |
| | Hawl i gael eich anghofio |
| | Cosbau a Diffyg cydymffurfio |
| **Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar gyfer y Sector Rhent Preifat** | Deddf Cydraddoldeb 2010 |
| | Mathau o wahaniaethu |
| | Gweithio gyda thenantiaid sydd â nodweddion gwarchodedig |
| | Addasiadau a hygyrchedd |
| **Rhent** | Cytundeb gyda deiliad y contract |
| | Pwyllgor asesu rhent (contractau wedi'u trosi yn unig) |
| | Cynnydd mewn rhent yn ystod contractau |
| | RHW12 |
| | Casglu |
| | Derbynebion rhent |
| | Sbardunau ôl-ddyledion rhent |
| | Dyfarniad Hawliadau Bychain y Llys Sirol |
| | Taliadau yn sgil lwfans tai lleol |
| | Cynnal contractau a chymorth deiliad contract |
| **Credyd Cynhwysol** | Cyflwyniad i Gredyd Cynhwysol (CC) |
| | Pwy all hawlio CC |
| | Sut y gall landlord/asiant helpu gyda hawliad |
| | Lle gall tenantiaid gael help |
| | Pwy sy'n gyfrifol am dalu pa filiau a chyfleustodau |

| | |
|---|---|
| **Cyflwyno deiliad contract i'w gartref newydd** | |
| | Cyflwyniad i eiddo – cychwyn |
| | Cofnod o Ddarlleniadau Mesuryddion |
| | Rheoliadau Dŵr Cymru 2014 – Landlord TAP |
| | Rhwymedigaethau gwastraff |
| | Gwybodaeth Allweddol a Chyfarwyddiadau ynglŷn ag Offer |
| **Gwasanaeth Cwsmeriaid, Cadw Cofnodion ac ystyriaethau ariannol eraill** | Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol |
| | Deddf Cyllid 1995 |
| | Enillion troseddau |
| | Gwyngalchu Arian |
| | Esgeulustod |
| | Dyletswydd gofal |
| | Rhwymedigaethau Treth |
| | Gwasanaeth cwsmeriaid |
| | Cadw cofnodion |
| | Prosesu ac Amddiffyn Data |
| **Meddiannaeth (Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016)**<br>**Gan gynnwys ar gyfer contractau newydd a chontractau trosi** | Beth i'w wneud pan fydd pethau'n mynd o chwith (cynnal tenantiaethau) |
| | Cydsyniad Cydfuddiannol |
| | Cyfyngiadau ar ennill meddiant |
| | Ymddygiad gwrthgymdeithasol |
| | Ôl-ddyledion Rhent Difrifol |
| | Torri'r Contract |
| | Meddu ar Gontractau Cyfnodol |
| | Meddu ar gontractau tymor penodol |
| | Ffurflenni Penodol |

| | |
|---|---|
| | Tynnu'r meddiant yn ôl |
| | Troi allan yn anghyfreithlon ac aflonyddu |
| | Troi Allan Dialgar |
| | Gadael |
| **Dod â chontract sefydlog/cyfnodol i ben**<br><br>**Gan gynnwys ar gyfer contractau newydd a throsi** | Cydsyniad Cydfuddiannol |
| | Troi allan yn anghyfreithlon ac aflonyddu |
| | Tymor Penodol/Cyfnodol |
| | Cyfleustodau – Darlleniadau Mesuryddion, Rhoi Gwybod i Ddŵr Cymru |
| | Treth Gyngor |
| | Stocrestr |
| | Rhoi’r Blaendal yn ôl - derbynebau, dull Amgen o ddatrys anghydfod |
| | Trosglwyddo eiddo |
| | Beth os yw deiliad y contract yn aros ar ddiwedd tymor penodol? |
| | Proses Feddiant Ffurfiol a chyfyngiadau |
| **Tystysgrif Perfformiad Ynni (TPY)** | Dangosyddion ar adeg hysbysebu |
| | Tystysgrif yn ystod yr ymweliad |
| | Isafswm Gwerth Rhentu |
| | Gorfodi a chosbau |
| | Sut i Wella sgôr TPY eiddo – gwaith y gellir ei wneud a lle gellir cael cymorth |
| **Diogelwch tân** | Egwyddorion Diogelwch Tân Cyffredinol |
| | Ffitrwydd i Fod yn Gartref a Safonau Penodedig |
| | Canllawiau LACORS |
| | Rheoli Tai Amlfeddiannaeth |
| | Asesiad Risg Tân |

| | |
|---|---|
| | Diogelwch Nwy a Thrydan |
| | Rheoliadau Dodrefn a Chelfi (Diogelwch Tân) |
| | Ysmygu a’r Ddeddf Iechyd |
| **Rheoli Gwastraff** | Gwybodaeth Gyffredinol Rheoli Gwastraff |
| | Gorfodi |
| | Gwybodaeth am ddeiliaid y contract |
| | Ailgylchu |
| | Mewn Tai Amlfeddiannaeth |
| | Dolen i amodau trwydded RhDC |
| **Marchnata yn y Sector Rhent Preifat** | Gofynion Marchnata gan gynnwys ffioedd, Tystysgrifau Perfformiad Ynni a RhDC |
| | Sail gyfreithiol |
| | Ymweld ag eiddo (arfer gorau) |
| | Nodweddion gwarchodedig |
| | Geirda ac ystyriaethau wrth ddewis Ymgeiswyr |
| **Geirdaon a Gwarantwyr** | Gwiriadau Credyd |
| | Cyfeirnod Incwm |
| | Rhent Blaenorol |
| | Gwiriadau Adnabod |
| | Gwarantwyr |
| | Nodweddion gwarchodedig |
| | Cyd-destun Deddfwriaethol |
| **Ffioedd taladwy wrth osod (gwahardd ffioedd tenantiaid yng Nghymru)** | Taliadau a Ganiateir |
| | Taliadau Rhent |
| | Taliadau Diffygdaliad |
| | Taliadau Gwaharddedig |
| | Blaendaliadau Daliadaeth (a Blaendaliadau Tenantiaeth) |

| | |
|---|---|
| | Diwygiadau i Ddeddf Hawliau Defnyddwyr 2015 |
| | Gorfodaeth (gan gynnwys cyfyngiadau dan feddiannaeth Rhentu Cartrefi ac adfer taliadau gwaharddedig) |

### Cyrsiau DPP uwch:

**Dyrennir 5 pwynt am bob tri neu fwy o destunau a drafodir (os nad yw'r pwnc cyfan wedi'i gynnwys) a 20 pwynt am bob pwnc llawn dan sylw:**

| Pwnc | Testunau |
|---|---|
| **Cyfraith Asiantaethau** | Cyfyngiad ar Awdurdod |
| | Y Tu Hwnt i'r Gyfraith |
| | Cyfraith Statudol a Chyffredin |
| | Deddf Cyflenwi Nwyddau a Gwasanaethau 1982 – Adran 13 |
| | Awdurdod Llafar |
| | Dyletswydd Gofal a Sgiliau |
| | Rolau'r Asiant, y Landlord a'r Tenant |
| | Ufudd-dod, teyrngarwch, atebolrwydd, perfformiad, datgelu |
| | Taliadau, indemniad, hawlrwym |
| | Didueddrwydd, Dyletswydd Gofal, Deddf Cydraddoldeb 2010 |
| | Ffioedd |
| | Amddiffyn Arian Cleientiaid ac Yswiriant Indemniad Proffesiynol |
| | Atebolrwydd cyhoeddus (contractwyr) |
| | Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015 |
| | Rheoliadau Contractau Defnyddwyr 2013 |
| | Gorfodi gan Awdurdod Lleol |
| | 'Gwaharddiad' ar Ffioedd Gosod a Thaliadau a Ganiateir |
| | Contractau |
| | Cyfrifyddiaeth a thrywydd archwilio |

| | |
|---|---|
| | Contract cyflogai |
| | Estopel |
| | Hysbysebu a Chyfarwyddyd Cyfreithlon i Osod |
| | Diogelu data |
| | Archwiliad Asiant Rhentu Doeth Cymru ac amodau ar gyfer Trwyddedeion |
| **Contractau meddiannaeth** | Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, deddfwriaeth atodol a Chanllawiau LlC |
| | Contractau diogel |
| | Contractau Safonol (sefydlog a chyfnodol) |
| | Tenantiaethau a Thrwyddedau sydd y tu allan i gwmpas Rhentu Cartrefi a Rhentu Doeth Cymru |
| | Is-osod |
| | Contractau ar y cyd |
| | Olyniaeth |
| | Cosbau |
| | Trwyddedau yn erbyn Tenantiaethau |
| | Datganiad Ysgrifenedig o'r Contract |
| | Datganiadau Ysgrifenedig Model |
| | Amserlenni ar gyfer cyhoeddi |
| | Termau: Materion allweddol, Sylfaenol, Atodol ac Ychwanegol |
| | Telerau annheg |
| | Gwasanaeth Electronig a chytundeb |
| | Ffioedd |
| **Stocrestrau, Blaendaliadau Tenantiaeth ac Anghydfodau** | Cynlluniau Gwarchod Adneuon a Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 |
| | Defnyddio Darparwr Stocrestr |
| | Stocrestrau (telerau atodol) |

| | |
|---|---|
| | Tystiolaeth |
| | Diogelu a Dychwelyd Blaendaliadau |
| | Traul |
| | Cynlluniau Gwarant Bond |
| | Datrys Anghydfod a Gadael Eiddo |
| **Rheoli contractau meddiannaeth yn effeithiol** | Atal Problemau, Rheoli Sefyllfaoedd, Cyfryngu, Gweithredu Cyfreithiol |
| | Gweithdrefnau cwyno |
| | Ymatebion Amserol |
| | Cadw cofnodion |
| | Prosesu ac Amddiffyn Data |
| | Adfer eiddo |
| | Rhybudd 24 awr, yr hawl i fwynhad tawel |
| | Cyswllt brys |
| | Mynediad mewn argyfwng |
| | Cod Ymarfer Rhentu Doeth Cymru ar gyfer Trwyddedeion (ac arolygiadau cyfnodol) |
| **Cynnal Cysylltiadau â Thenantiaid (Cynnal Tenantiaethau)** | Cyfathrebu gan gynnwys Diogelu Data |
| | Anawsterau Ariannol (gan gynnwys HB/CC) |
| | Iechyd Meddwl Gwael (gan gynnwys Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod) |
| | Tenantiaid sy'n mynd i'r carchar neu’n dod o’r carchar. |
| | Ymddygiad gwrthgymdeithasol |
| | Ôl-ddyledion rhent |
| | Cymorth i Fyw'n Annibynnol |
| | Cymorth a Chefnogaeth Allanol |
| | Diffiniad o Dŷ Amlfeddiannaeth |

| | |
|---|---|
| **Rheoli Tai Amlfeddiannaeth** | Deddf Tai 2004, Rhan 2 |
| | Mathau o Gontract |
| | 'Peryglon' mwyaf cyffredin |
| | Dyletswyddau Rheolwr Tŷ Amlfeddiannaeth - Rheoliadau Tai Amlfeddiannaeth 2006 |
| | Trwyddedu - Deddf Tai 2004, Addas a Phriodol |
| | Methiant i Gydymffurfio – Troseddau |
| | Cynlluniau Trwyddedu Gorfodol ac Ychwanegol |
| | Camau ymarferol i reoli tenantiaid Tai Amlfeddiannaeth |
| | Diogelwch tân |
| | Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio Diogelwch Tân |
| | Rhwymedigaethau gwastraff a mannau cymunedol |
| | Ymddygiad gwrthgymdeithasol |
| | Cyfryngu a Chynnal Cysylltiadau Tenantiaid |
| | Cyd-ddeiliaid Contractau: Atebolrwydd, Gadael ac Ychwanegu |
| | Cydsyniad a Rhesymolrwydd |
| | Delio â chwynion |
| | Cadw cofnodion |
| | Addasiadau rhesymol |
| | Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl |
| | Cynnal Tenantiaethau a Chyfeirio am Gymorth |
| **Rheoli Llety Gosod i Fyfyrwyr** | Marchnata |
| | Contractau |
| | Hyd Tenantiaeth: |
| | Rhent a Hanner Rhent |
| | Geirdaon a Gwarantwyr |
| | Blaendaliadau a Stocrestrau |

| | |
|---|---|
| | 'Peryglon' mwyaf cyffredin |
| | Tai Amlfeddiannaeth |
| | Diogelwch tân |
| | Gwastraff |
| | Treth Gyngor |
| | Ymddygiad gwrthgymdeithasol |
| | Arolygiadau Cyfnodol a Chysylltiadau Brys |
| | Delio â chwynion |
| | Cadw cofnodion |
| | Cynnal a Gorffen Tenantiaethau |
| | Cyd-ddeiliaid Contractau: Atebolrwydd, Gadael ac Ychwanegu |
| | Cydsyniad a Rhesymolrwydd |
| | Addasiadau rhesymol |
| | Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl |
| | Beth os yw tenantiaeth yn chwalu – cyngor a chymorth |
| | Proses gadael |
| **Cartrefi am ddim sy'n effeithlon o ran ynni, yn gynnes ac yn sych** | Perygl o fod yn hynod oer, yn llaith a bod llwydni'n tyfu |
| | Effaith Oerni ar Iechyd |
| | Dulliau Gwresogi |
| | Dileu Lleithder |
| | Effeithlonrwydd Ynni ac Thystysgrifau Perfformiad Ynni |
| | Gofynion Deddfwriaethol a Chosbau |
| **Heriau Iechyd Meddwl yn y Sector Rhentu Preifat** | Cyd-destun Iechyd Meddwl - Y Ddeddf Cydraddoldeb a materion allweddol |
| | Ymddygiadau sy'n gysylltiedig â phroblemau iechyd meddwl a'r goblygiadau i'r landlord |
| | Nodi tenantiaid â materion iechyd meddwl a chynnig cymorth |

| | |
|---|---|
| | Cyfathrebu ac iechyd meddwl |
| | Iechyd Meddwl a Budd-daliadau Lles |
| | Materion Iechyd Meddwl a Rheoli Cyllid |
| | Landlordiaid (ac Asiantau) a'u Hiechyd Meddwl |
| | Defnyddio prosesau cyfreithiol fel opsiwn olaf |

## DPP (Uwch) Craidd:

| Pwnc | Testunau |
|---|---|
| **Cartrefi Diogel ac Iach**<br><br>**(30 pwynt)** | Cyfrifoldebau Trwsio a Chyfyngiadau |
| | Rhwymedigaethau Landlordiaid a Deiliaid Contractau |
| | Ffitrwydd i Fod yn Gartref – 29 o 'Faterion ac Amgylchiadau' |
| | Safonau penodol yn ymwneud â thân, carbon monocsid a diogelwch trydanol |
| | Deddf Tai 2004 - System Mesur Iechyd a Diogelwch Tai |
| | 29 Perygl a'r Peryglon mwyaf cyffredin |
| | Cyddwysiad, lleithder a llwydni |
| | Rheoliadau Diogelwch Trydanol |
| | Rheoliadau Diogelwch Nwy |
| | Rheoliadau Diogelwch Tân (FSO 2005) |
| | Legionella – Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 |
| | Rheoliadau Asbestos |
| | Dodrefn a Rheoliadau Diogelwch Dodrefn |
| | Rheoli Heintiau a Damweiniau |
| | Rhybudd 24 Awr, yr hawl i fwynhad didramgwydd |
| | Cyswllt brys |
| | Mynediad mewn argyfwng |
| | Amodau Rhentu Doeth Cymru ar gyfer Trwyddedeion (Cod Ymarfer ac Ymweliadau Cyfnodol) |
| | Gorfodi a Chosbau |

| Pwnc | Testunau |
| --- | --- |
| **Deddf Rhentu Tai (Cymru) 2016**<br><br>**(5 pwynt)** | Gweithredu Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 |
| | Trefniadau trosi a'r hyn sy'n wahanol ar gyfer contractau wedi'u trosi o'i gymharu â chontractau safonol newydd o dan RC. |
| | Trosolwg o ddeddfwriaeth a ddiddymwyd a diwygiadau canlyniadol (e.e. RhDC) |
| | Tenantiaethau a thrwyddedau wedi'u heithrio |
| | Diffiniadau gan gynnwys:<br>• Mathau o Landlord<br>• Deiliad Contract<br>• Mathau o Gontract Meddiannaeth |
| | Contractau diogel (yn ddiofyn i Landlordiaid Cymunedol) |
| | Contract safonol (diofyn yn y Sector Rhent Preifat) |
| | Darpariaethau sylfaenol |
| | Ymgorffori ac addasu darpariaethau sylfaenol |
| | Darpariaethau atodol |
| | Ymgorffori ac addasu darpariaethau atodol |
| | Materion Allweddol |
| | Telerau Ychwanegol |
| | Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015 |
| | Datganiad ysgrifenedig a chosbau |
| | Pan fydd contract yn dod yn orfodadwy |
| | Cyfnodau wedi'u gwahardd |
| | Amrywiadau Contract |
| | Blaendaliadau a chynlluniau adneuo |
| | Deiliaid contract ar y cyd a landlordiaid ar y cyd |
| | Hawl i feddiannu heb ymyrraeth |
| | Hawliau a rhwymedigaethau deiliaid contract |
| | Ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymddygiad gwaharddedig arall |
| | Cydsyniad y Landlord |
| | Is-alwedigaeth |

| | |
|---|---|
| | Rhwymedigaethau Atgyweirio |
| | Ffitrwydd i Fod yn Gartref FfIFYG a Safonau Penodedig |
| | Iawndal a chosbau ar gyfer atgyweirio a FfIFYG |
| | Cyfyngiadau ar rwymedigaethau landlord i atgyweirio |
| | Hawliau landlord i fynediad |
| | Y Deiliaid Contract yn dod â chontract i ben |
| | Sefyllfaoedd pan na all landlord ddod â chontract i ben |
| | Gadael |
| | Derbynneb Rhent Ysgrifenedig |
| | Gwasanaeth electronig |
| | Olyniaeth |
| | Troi Allan Dialgar |
| | Ôl-ddyledion Rhent Difrifol |
| | Contractau Meddiannaeth Safonol Cyfnodol:<br>• Amrywio rhent<br>• Terfynu contractau safonol cyfnodol |
| | Contractau Meddiannaeth Safonol Tymor Penodol<br>• Contract safonol cyfnod penodol – diwedd cyfnod penodol<br>• Terfynu contractau safonol tymor penodol |

# Atodiad C – Amodau Safonol ar gyfer Cymeradwyo

Amodau Safonol Cymeradwyo Cwrs DPP:

- Dim ond gan Ddarparwr Hyfforddiant Awdurdodedig, dan Ran 1 Deddf Tai (Cymru) 2014 y gellir cyflwyno'r cwrs hwn/y cyrsiau hyn.
- Rhaid defnyddio brandio Rhentu Doeth Cymru yn unol â chanllawiau'r brand ar bob adeg.
- Rhaid i chi roi gwybod i Rentu Doeth Cymru os gwneir unrhyw newidiadau i'r dull o ddilysu'r cwrs, gan gynnwys newidiadau i gwestiynau.
- Rhaid i chi roi gwybod i Rentu Doeth Cymru os gwneir unrhyw newidiadau i gynnwys y cwrs.
- Rhaid cadw cynnwys y cwrs a dull yr asesu'n berthnasol a'i ddiwygio i adlewyrchu unrhyw newidiadau cyfreithiol perthnasol sy'n effeithio ar Gymru, cyn pen 28 diwrnod ar ôl y newid. Rhaid i Rhentu Doeth Cymru gael gwybod am y newidiadau er mwyn cytuno ar y cynnwys newydd. Rhaid i unrhyw newidiadau sylweddol i'r cynnwys sy'n digwydd unwaith y bydd cynrychiolydd wedi mynychu'r hyfforddiant (am y 5 mlynedd nesaf), gael eu cyfleu i'r cynrychiolydd hwnnw drwy ddiweddariad o fewn 28 diwrnod i'r newid ddigwydd.
- Rhaid i dystysgrifau hyfforddiant i'r sawl sy'n cwblhau'r cwrs gydymffurfio â'r hyn y cytunir arno â RhDC adeg eich cais, y mae'n rhaid i logo Landlord / Asiant cymeradwy Rhentu Doeth Cymru fod arni, neu os nad yw hynny'n bosibl, y geiriau 'Cwrs DPP a Gymeradwyir gan Rhentu Doeth Cymru'. Rhaid i'r dystysgrif hyfforddi gynnwys yr ymwadiad canlynol:

  > *'Nid yw'r cofnod hyfforddi hwn yn dystiolaeth y cafwyd trwydded gan Rhentu Doeth Cymru; tystio bod y person wedi mynychu cwrs hyfforddi DPP landlord neu asiant yn unig y mae."*

- Rhaid i dystysgrifau hyfforddiant a gyflwynir arddangos enw cyntaf a chyfenw llawn y mynychwr. Mae RhDC yn cadw'r hawl i ofyn i dystysgrif newydd gael ei chyflwyno os nad yw tystysgrif yn cynnwys enw cywir yr unigolyn fel y'i nodir yn y cais i RhDC am drwydded.
- Bydd cyrsiau hyfforddi yn y dosbarth yn cael eu hasesu gan Swyddog Sicrwydd a Datblygu Rhentu Doeth Cymru yn ystod y 3 mis cyntaf (neu pan gynhelir y cwrs am y tro cyntaf) ar ôl cymeradwyo'r cwrs. Ar ôl asesu'r cwrs, efallai y bydd RhDC yn cyflwyno argymhellion y mae'n rhaid eu mabwysiadu er mwyn parhau i gymeradwyo'r cwrs.
- Rhaid i'r lleoliad a ddewisir i gynnal yr hyfforddiant ystafell ddosbarth fodloni safonau hygyrchedd.

- Rhaid i chi / eich sefydliad lynu at Ddeddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

## Atodiad D – Amodau Safonol ar gyfer Awdurdodi

Amodau Safonol Awdurdodi Darparwyr Hyfforddiant:

- Wedi eich awdurdodi, cewch chi a/neu eich cwmni gyflwyno'r cwrs/cyrsiau sydd wedi'u henwi ar eich ffurflen gais a chaiff y rhain eu cymeradwyo dan Ran 1 Deddf Tai (Cymru) 2014.

- Dim ond dan enw'r darparwr cymeradwy sydd wedi'i nodi ar eich cais y cewch chi ddarparu'r cwrs/cyrsiau sydd wedi ei/eu (h)enwi ar eich cais. Nid yw'r awdurdodiad hwn yn caniatáu i sefydliad arall ddarparu'r cwrs/cyrsiau ar eich rhan heb ganiatâd datganedig gan Rhentu Doeth Cymru.

- Rhaid defnyddio brandio Rhentu Doeth Cymru yn unol â chanllawiau'r brand ar bob adeg.

- Rhaid i chi roi'r dull dilysu ar waith yn berffaith unol â gofynion Cymeradwyo Cwrs a gyhoeddwyd dan Ran 1 Deddf Tai (Cymru) 2014. Rhaid i Rhentu Doeth Cymru gytuno ar unrhyw newidiadau i'r dull dilysu cyn iddyn nhw gael eu rhoi ar waith.

- Mae'n rhaid i'r profiad a'r cymwysterau gofynnol sydd wedi'u nodi yn eich cais fod yn ofynnol gan bob hyfforddwr y mae eich cwmni'n ei gyflogi i ddarparu cyrsiau Rhentu Doeth Cymru a gymeradwyir.

- Dim ond yr hyfforddwyr sydd wedi'u rhestru ar eich cais sydd wedi'u hawdurdodi i ddarparu cyrsiau hyfforddiant Rhentu Doeth Cymru cymeradwy. Rhaid rhoi gwybod i RhDC os bydd unrhyw hyfforddwyr yn stopio darparu'r cwrs/cyrsiau. Rhaid i RhDC gymeradwyo unrhyw hyfforddwyr newydd; hyd nes bod cymeradwyaeth wedi'i rhoi, ni chaiff hyfforddwyr newydd ddarparu cyrsiau.

- Rhaid i bob hyfforddwr (a phersonau cysylltiedig â'r sefydliad/cwmni) fod yn addas a phriodol. Os oes gan hyfforddwr neu unrhyw un cysylltiedig â nhw, yn ffurfiol ai peidio, euogfarnau heb eu treulio fel y rhai sydd wedi'u rhestru isod, rhaid i Rentu Doeth Cymru gael gwybod er mwyn i benderfyniad gael ei wneud o ran p'un a fydd

hynny’n effeithio ar statws addas a phriodol yr unigolyn. Dyma restr o droseddau perthnasol:

(a) Unrhyw drosedd sy’n cynnwys:

- Twyll a mathau eraill o anonestrwydd;
- Trais, arfau tanio neu gyffuriau;
- Unrhyw drosedd yn Atodlen 3 Deddf Troseddau Rhywiol 2003 (troseddau sy'n destun gofynion hysbysu);

(b) Gwahaniaethu neu aflonyddu anghyfreithlon a ymarferir ar sail unrhyw Nodwedd a Ddiogelir yn adran 4 Deddf Cydraddoldeb 2010, neu erlid person arall yn groes i'r Ddeddf, neu'n gysylltiedig a pharhad unrhyw fusnes.

(c) Torri unrhyw ddarpariaeth o’r gyfraith sy’n gysylltiedig â thai neu landlordiaid/tenantiaid, er enghraifft:

- Troi tenant allan yn anghyfreithlon; Cael gwrthod trwydded Tŷ Amlfeddiannaeth neu drwydded ddetholus dan Ddeddf Tai 2004;
- Cael diddymu trwydded am dorri unrhyw amodau yn Neddf Tai 2004;
- Bod yn destun Gorchymyn Rheoli dan Ddeddf Tai 2004; peidio â chydymffurfio â Rhybudd Ty (angen gwaith ac ati) a gyflwyna’r awdurdod lleol;
- Bod yn destun cwynion gan denantiaid neu ffynonellau eraill am achos difrifol o dor-amod neu sawl achos o dor-amod trwydded dan Ddeddf Tai 2004.

Yn ogystal â hynny, rhaid i chi a/neu eich sefydliad gael y cadarnhad angenrheidiol gan bob un o’ch hyfforddwyr sy’n landlordiaid eiddo yng Nghymru y byddan nhw’n cynnal eu heiddo'n unol â deddfwriaeth a Chod Ymarfer Rhentu Doeth Cymru ym mhob achos.

- Rhaid i chi gyflwyno ffigurau bob chwarter gan gynnwys cyfanswm yr asiantau a/neu landlordiaid sydd wedi cwblhau’r cwrs/cyrsiau sydd wedi ei/eu henwi ar eich

cais.   Rhaid i chi roi'r ffigurau chwarterol o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl i RhDC wneud y cais.

- Rydych chi a/neu eich sefydliad yn cytuno i gael eich archwilio gan Rhentu Doeth Cymru fel sy'n ofynnol yn adran 10 Rheoliadau Tai Rhent Preifat (Gofynion Hyfforddiant (Cymru) 2015.